**Eluned Morgan AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Welsh Language and Lifelong Learning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf EM/00705/18

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Comisiynydd Y Gymraeg
5-7 Siambrau'r Farchnad
Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

[redacted]

6 Tachwedd 2018

Annwyl Meri

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ac am eich awgrymiadau ar gyfer datblygu targedau penodol pellach mewn perthynas â'r Gymraeg.

O gofio hyd a lled ein Cynllun Cyflogadwyedd traws-lywodraethol, nid ydym wedi ceisio datblygu targedau yn erbyn yr holl gamau a nodwyd. Fodd bynnag, mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos ar draws adrannau eraill er mwyn gwneud cysylltiadau strategol yn yr holl feysydd polisi cysylltiedig.

Rydw i wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda chydweithwyr Gweinidogol gydol yr hydref, er mwyn trafod cyflogadwyedd a chyfleoedd sgiliau a'u cysylltiad â'r Gymraeg.

Mae llawer o nodau strategol Cymraeg 2050, Strategaeth y Gymraeg, yn cefnogi nodau'r Cynllun Cyflogadwyedd, yn enwedig y gwaith o ddatblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16 a'r gweithgarwch hyrwyddo er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyflogaeth.

Bydd targedau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16 yn cael eu hadrodd dan Cymraeg 2050; byddwn yn cyfeirio at y rhain yn y Cynllun Cyflogadwyedd.

Bydd cynllun gweithredu cyfrwng Cymraeg ôl-16 newydd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. Yn y tymor byr, byddwn yn parhau i adrodd yn erbyn y targedau ôl-16 ar gyfer 2020 a nodwyd yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010 yn adroddiad blynyddol Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn dilyn cyhoeddi, bydd cyfle i ailystyried y ffordd yr ydym yn mesur cynnydd yn y tymor hir a'r ffordd y caiff y rhain eu hadrodd. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y deuddeg mis nesaf.

At hynny, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n darparwyr hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn ymateb i nodau Cymraeg 2050.

Gan ystyried yn benodol ein Rhaglenni Cyflogadwyedd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn monitro'r defnydd o'r Gymraeg ac yn asesu'r mannau lle gallai fod yna fylchau y gellid eu nodi yn ein darpariaeth. Mae'n ofynnol i gontractwyr a benodwyd gyflawni Cymru'n Gweithio, ein rhaglen graidd newydd, i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, ac annog pobl i fanteisio ar hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddiant dwyieithog drwy dargedau ar gyfer hybu a darparu gweithgarwch. Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithredu ymhellach yn y ddau faes hyn os yw'n ofynnol.

Yn gywir [redacted]

**Eluned Morgan AC**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Yn dilyn cyhoeddi, bydd cyfle i ailystyried y ffordd yr ydym yn mesur cynnydd yn y tymor hir a'r ffordd y caiff y rhain eu hadrodd. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y deuddeg mis nesaf.

At hynny, rydym yn parhau i gydweithio'n agos â'n darparwyr hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mewn ymateb i nodau Cymraeg 2050.

Gan ystyried yn benodol ein Rhaglenni Cyflogadwyedd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn monitro'r defnydd o'r Gymraeg ac yn asesu'r mannau lle gallai fod yna fylchau y gellid eu nodi yn ein darpariaeth. Mae'n ofynnol i gontractwyr a benodwyd gyflawni Cymru'n Gweithio, ein rhaglen graidd newydd, i gefnogi'r broses o ddatblygu'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, ac annog pobl i fanteisio ar hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a hyfforddiant dwyieithog drwy dargedau ar gyfer hybu a darparu gweithgarwch. Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithredu ymhellach yn y ddau faes hyn os yw'n ofynnol.

Yn gywir

**Eluned Morgan AC**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes